5.147

# Y RHYWBETH RHYFEDD!

I.

Clywais, gwelais, teimlais lawer
O amrywiol bethau amser ;
Ond mae *rhywbeth* dyeithr heddyw
Yn fy mron, na *bu ei gyfryw*,
*Rhywbeth rhyfedd !*
O ! mae 'n *rhyfedd ! rhyfedd ! rhyfedd !*
Ac wrth wrando, tremio, teimlo,
Dyblu a threblu, etto ac etto ;
Dal yn *rhyfedd* mae y rhywbeth,
Dyeithr rhyfedd, llawn o benbleth ;
Nes wyf finau o ran fy anian,
Yn *rhywbeth dyeithr* im' fy hunan !

II.

Arferai gwên yr haul ben borau
Greu llawenydd ar fy ngruddiau ;
Sŵn yr awel, cerdd aderyn,
Hwylio 'm calon fach fel telyn ;
*Ond mae rhywbeth,*
*Rhywbeth rhyfedd,* llawn o benbleth—
Wedi yspeilio gwênau gwanwyn,
Miwsig awel ac aderyn ;
Fel nad oes yn aros heddyw,
Ond y *rhywbeth* oer digyfryw—
*Rhywbeth dyeithr !* O ! mae 'n rhyfedd !
Duw a ŵyr beth fydd ei ddiwedd !

III.

Os cyfeiriaf tu a'r aelwyd,
Gynt fu 'n noddfa fy nedwyddyd ;
Daw 'r *peth dyeithr* i'r fan hono,
Nes bo 'm calon wan yn dryllio—
*Rhywbeth rhyfedd !*
Heb un corff, na dull, nac agwedd !
Minau 'n ddyeithr im' fy hunan ;
Ar yr aelwyd, yn fy nhrigfan !
Er im' wylo, wylo, wylo,
Nid â'r peth *dyeithr* o'r fan hono !
O ! beth rhyfedd, rhyfedd, rhyfedd ;
Duw ! a ŵyr beth fydd ei ddiwedd.

IV.

Yna cilio i'r ystafell—
Diffodd canwyll—hono 'n dywell—
Myn'd i'r gwely—ac ymsuddo
I ddyblygion nôs i huno—
Ond, daw 'r *rhywbeth*,
Fel rhyw hunllef, llawn o benbleth,
I ymrithio yn y gwylltion
Erchyll, loerig, croes freuddwydion !
*O ! mor rhyfedd !* ac er codi,
A phlygu deulin oer mewn gweddi—
Daw 'r *peth dyeithr* yno 'n *rhyfedd*
I fferu 'm gwefus a'i gyfaredd !

V.

Gŵn nad oes ar *ddaiar* dirion
Ddim all ymlid hwn o'm calon ;
*Dyeithr, dyeithr,* byth fydd pob-peth,
Dan ddylanwad oer y *rhywbeth !*
*O ! beth rhyfedd !*
Rhyfedd dyeithr ! dyeithr rhyfedd !
Gwên pob gwênau ddarfu gilio,
Pan y cuddiwyd *un* mewn amdo !
Dim ond *un* ! y bywyd giliodd
O fy enaid, pan yr hunodd !
A'r *peth dyeithr* fydd fy nghwmni,
Trwy fy oes ar ol ei cholli !

VI.

O ! fy Nhad ! fy Noddwr dwyfol !
Mae seren fry yn t'wynu 'n siriol ;
Ac mae *rhywbeth* yn ei hagwedd,
Sy' fel yn lladd y *rhywbeth rhyfedd* !
*Rhyfedd, rhyfedd* !
Rhyw ddylifiad o dangnefedd !
A yw 'r *yspryd anwyl hwnw*,
Yn y seren siriol acw ?
Engyl nefoedd ! O ! am enyd,
Rhow'ch im' olwg ar f' anwylyd !
Cipdrem *fach*—pe ond am eiliad,
Ar anfarwol gil ei llygad ;
*Efallai* lleddfai hyny 'r creulon
*Hiraeth hir,* sy 'n tori nghalon !

IORWERTH GLAN ALED.
(Edward Roberts)

Rhyl, Mawrth, 1865.

X205215447